

18 Hydref 2021
E-bost: (seneddhealth@senedd.wales)

Wales office
2 Caspian Point
Caspian Way
Cardiff CF10 4DQ

Email: gmcwales@gmc-uk.org
Website: www.gmc-uk.org
Telephone: 029 2049 4948

Annwyl Russell

Re: Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil Iechyd a Gofal

Diolch yn fawr iawn am eich llythyr yn gofyn am ein hymateb i'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil Iechyd a Gofal.

Y Cyngor Meddygol Cyffredinol (GMC) yw'r rheolydd annibynnol ar gyfer holl feddygon y DU. Rydym yn helpu i amddiffyn cleifion a gwella ymarfer ac addysg meddygol ledled y DU gan osod safonau i fyfyrwyr a meddygon. Rydym yn eu cefnogi i gyrraedd a rhagori ar y safonau yma, yn ogystal â chymryd camau i wneud hyn pan na gyrhaeddir y safonau gofynnol.

Mae ein cylch gwaith cymharol gul, o ystyried ehangder y Bil Iechyd a Gofal, yn golygu na allwn wneud sylwadau ar y cwestiynau penodol a ofynnir.

Serch hynny, gobeithiwn y bydd yn ddefnyddiol i rannu'n hymateb i'r Pwyllgor Biliau ar y Bil ei hun. Mae hyn yn esbonio ein safbwynt ar y cynigion sy'n berthnasol i'n gwaith. Gweler isod ddyfyniadau o'n Tystiolaeth Ysgrifenedig i'r Bil Iechyd a Gofal, yn benodol ar Gymal 123, a allai effeithio ar Reoleiddwyr Iechyd.

Mae'r pwyntiau allweddol mwyaf perthnasol wedi'i nodi mewn ffont bras. Gweler yr atodiad er mwyn darllen yr holl dystiolaeth ysgrifenedig.

Newidiadau i reoleiddio proffesiynol (rhan 5, cymal 123)

- 1 O ddiddordeb uniongyrchol i ni yw'r cynigion i ymestyn pwerau'r Ysgrifennydd Gwladol ynghylch rheoleiddio gweithwyr gofal iechyd proffesiynol. Mae'r pwerau yma'n cynnwys:

- Tynnu proffesiwn o bwerau rheoliad lle nad oes angen rheoleiddio mwyach er mwyn amddiffyn y cyhoedd
- Diddymu corff rheoleiddio proffesiynol iechyd a gofal unigol lle mae'r proffesiynau dan sylw wedi'u dadreoleiddio neu'n cael eu rheoleiddio gan gorff gwahanol
- Dirprwyo, trwy ddeddfwriaeth, swyddogaethau cyfyngedig yn hanesyddol i gyrff rheoleiddio eraill

Pwerau i dynnu proffesiwn o reoleiddio a diddymu rheolydd

- 2** Mae'r Llywodraeth yn nodi taw'r nod yw mynd i'r afael ag anghydbwysedd. Ar hyn o bryd, mae adran 60 o Ddeddf Iechyd 1999 yn darparu pwerau i wneud nifer fawr o newidiadau i'r dirwedd reoleiddio broffesiynol trwy ddeddfwriaeth eilaidd. Bydd y cynigion yn y Bil ar gyfer pwerau ychwanegol yn ehangu sgôp adran 60 ac yn ymestyn pwerau'r Ysgrifennydd Gwladol.
- 3** Ar hyn o bryd mae gan y Llywodraeth bwerau i ddod â phroffesiwn newydd i reoleiddio, neu ei addasu trwy is-ddeddfwriaeth, ond dim ond trwy ddeddfwriaeth sylfaenol y gall dynnu proffesiwn o reoliad. Bydd y Bil yn newid hyn trwy alluogi tynnu proffesiwn o reoliad statudol, trwy is-ddeddfwriaeth. Rydym yn croesawu'r eglurhad yn y Bil y byddai proffesiwn yn cael ei dynnu o reoliad dim ond pan nad oes ei angen mwyach. Fodd bynnag, hoffwn fwy o fanylion a chadarnhad ynghylch pa feini prawf y bydd y llywodraeth yn eu defnyddio i lywio penderfyniad o'r fath.
- 4** Mae'r Bil hefyd yn caniatáu i'r Ysgrifennydd Gwladol ddileu rheoleiddiwr gofal iechyd proffesiynol gan ddefnyddio is-ddeddfwriaeth, ond dim ond lle mae ei swyddogaethau rheoleiddio wedi cael eu huno neu eu cynnwys gan gorff neu gyrff arall, neu lle mae'r proffesiynau y mae'n eu rheoleiddio yn cael eu tynnu o reoliad.
- 5** **Bydd defnyddio'r pwerau hyn yn dod â goblygiadau i'r llywodraethau datganoledig oherwydd bod y rhan fwyaf o ¹bwerau**

¹ Mae rheoleiddio gweithwyr cymdeithasol wedi'i ddatganoli.

rheoleiddio gweithwyr gofal iechyd proffesiynol yng Nghymru, Lloegr a'r Alban yn cael eu rheoli gan San Steffan. Mae Gogledd Iwerddon yn wahanol gan fod rheoleiddio proffesiynol yn fater a drosglwyddir. Cymhlethir hyn ymhellach gan y ffaith bod polisi iechyd a gofal wedi'i ddatganoli ym mhob un o'r pedair gwlad.

- 6 Fel rheolydd pedair gwlad rydym yn croesawu sicrwydd y Llywodraeth o fewn nodiadau esboniadol y Bil y bydd 'unrhyw ddefnydd o'r pwerau estynedig yn destun cymeradwyaeth y Gweinidog ar draws y gweinyddiaethau datganoledig. Bydd gorchmynion bob amser yn gofyn am gymeradwyaeth Cynulliad Gogledd Iwerddon lle mae rheoleiddio proffesiynol yn fater a drosglwyddir ac efallai y bydd angen cymeradwyaeth Senedd yr Alban (lle maent yn ymwneud â phroffesiynau a ddygwyd i reoliad ar ôl Deddf yr Alban 1998**) neu Senedd Cymru (lle mae'r gorchymyn yn ymwneud â gweithwyr gofal cymdeithasol).'**
- 7 Credwn fod annibyniaeth yn allweddol i'r ymddiriedaeth a'r hyder sydd gan y cyhoedd a phroffesiynau wrth reoleiddio. Mewn system o ofal iechyd sy'n cael ei dominyddu gan systemau iechyd gwladol y DU - pedwar darparwr ar wahân a ariennir gan y wladwriaeth - mae'n hanfodol bod rheoleiddwyr yn gallu gweithredu'n annibynnol o'r llywodraeth a rhanddeiliaid eraill.**
- 8 Er nad ydym yn credu y byddai'r pwerau newydd hyn byth yn berthnasol i reoleiddio meddygon oherwydd y risgiau sylweddol o ran amddiffyn y cyhoedd byddai dileu rheoleiddio yn golygu, croesawn sicrwydd gan y Llywodraeth ynghylch sut y bydd y pwerau estynedig hyn yn cael eu gweithredu.**
- 9 Byddai'n ddefnyddiol deall a fydd meini prawf ac egwyddorion craidd i lywio penderfyniadau i ddod â phroffesiynau i reoleiddio, neu i'w dileu, yn cael eu datblygu, a pha ymgynghoriadau â sefydliadau cleifion, cyrff cynrychiadol a rheoleiddwyr fydd yn digwydd.**
- 10 Rydym wedi sylwi nad oes unrhyw sôn am ddyletswydd statudol i ymgynghori â rhan-ddeiliaid - naill ai yn y Bil, nac yn y nodiadau esboniadol**

**Cyn bo hir, byddwn yn ymgymryd â rheoleiddio Cymdeithion Meddygol a Chymdeithion Anesthesia a fydd yn atebol i Senedd yr Alban.

- cyn diddymu proffesiwn a rheoleiddiwr proffesiynol. Byddem yn falch pe rhoddir ystyriaeth i sut y byddai penderfyniadau o'r fath yn destun craffu priodol ac a ydynt er budd y cyhoedd ac a fyddent yn amddiffyn cleifion.

Pŵer i gael gwared ar gyfyngiadau ynghylch y pŵer i ddirprwyo swyddogaethau trwy ddeddfwriaeth

11 Croesawn y pŵer hwn gan ei fod yn unol ag uchelgeisiau ein strategaeth gorfforaethol i weithio gyda phartneriaid i gyflawni nodau system gofal iechyd ehangach. Ochr yn ochr â thrafodaethau cyfochrog ar ddiwygio rheoliadol, bydd yn:

- Rhoi cyfle i reoleiddwyr ac eraill ar draws y systemau gofal iechyd weithio gyda'i gilydd yn fwy effeithiol.
- Galluogi sefydliadau i gyfuno arbenigedd i symleiddio sut mae swyddogaethau'n cael eu cyflawni, gan gydnabod y gallai fod angen persbectif amlddisgyblaethol a dull cydweithredol ar rai, er mwyn cryfhau diogelwch y cyhoedd.

Gobeithiwn y bydd y wybodaeth uchod yn helpu i lywio craffu'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol y Bil Iechyd a Gofal.

Yr eiddoch yn gywir,

Sara Moseley

Pennaeth GMC Cymru